Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad dilynol o Drefniadau Corfforaethol ar gyfer Diogelu Plant – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent**

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1521A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Dave Wilson ac Allison Rees, yn cael eu rheoli gan Non Jenkins, dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae’r Cyngor wedi gwneud cynnydd cyfyngedig o ran mynd i’r afael â’n hargymhellion a’n cynigion blaenorol ar gyfer gwella ac nid yw’r trefniadau diogelu yn ddigon cyson i ddarparu sicrwydd ar draws pob maes gwasanaeth

Adroddiad cryno 4

Asesiad o’r cynnydd yn erbyn yr argymhellion o’n hadroddiad yn 2015 a chynigion ar gyfer gwella o’n hadroddiad yn 2014 7

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Fe gynhaliom ni’r adolygiad hwn i geisio sicrwydd bod y Cyngor wedi gweithredu ar ein hargymhellion cenedlaethol blaenorol a’n cynigion lleol ar gyfer gwelliannau i drefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu plant. Fe wnaethom ystyried canfyddiadau’r adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2014 ar drefniadau’r Cyngor i gefnogi diogelu plant[1]. Fe wnaethom hefyd ystyried cynnydd y Cyngor o ran gweithredu’r argymhellion yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, **Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru** (Gorffennaf 2015)[2].

2 Fe gynhaliom ni’r adolygiad yn ystod mis Mehefin 2019. Fe gwblhaodd y Cyngor hunanasesiad o’i gynnydd o ran mynd i’r afael â’r argymhellion a’r cynigion ar gyfer gwella a wnaed gennym yn 2014 a 2015. Darparodd y Cyngor ddogfennau i ategu ei hunanasesiad. Wedyn fe gyfwelom ni â swyddogion allweddol a’r aelod arweiniol dros ddiogelu corfforaethol.

3 Nid ydym wedi profi effeithiolrwydd trefniadau diogelu’r Cyngor yn ymarferol fel rhan o’r adolygiad hwn.

### Yr hyn a ganfuom

4 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: **A all y Cyngor ddarparu sicrwydd ei fod wedi mynd i’r afael â’r argymhellion a’r cynigion ar gyfer gwella yn adroddiadau cenedlaethol a lleol yr Archwilydd Cyffredinol a gyhoeddwyd yn 2014-15?**

5 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: **mae’r Cyngor wedi gwneud cynnydd cyfyngedig o ran mynd i’r afael â’n hargymhellion a’n cynigion blaenorol ar gyfer gwella ac nid yw’r trefniadau diogelu yn ddigon cyson i ddarparu sicrwydd ar draws pob maes gwasanaeth.**

6 Yn seiliedig ar ein hadolygiad, mae gennym bryderon ynghylch trefniadau corfforaethol y Cyngor ar gyfer diogelu plant ar draws ei holl gyfarwyddiaethau a chan drydydd partïon a rhanddeiliaid sy’n darparu gwasanaethau ar ran y Cyngor. Nid yw’r Cyngor yn cynnwys diogelu yn ei gofrestr risgiau corfforaethol ar hyn o bryd. Mae’r wybodaeth yn hunanasesiad y Cyngor ac mewn tystiolaeth ddogfennol a ddarparwyd ar ein cyfer ni yn gyfyngedig yn yr ystyr ei bod yn canolbwyntio ar drefniadau diogelu ar gyfer ei gyfarwyddiaethau addysg a gwasanaethau

---

[1] Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Trefniadau Awdurdodau Lleol i Gefnogi Diogelu Plant – Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent,** Hydref 2014

[2] **Archwilydd Cyffredinol Cymru, Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru**, Gorffennaf 2015

cymdeithasol. Mae angen i'r Cyngor fynd ati ar frys i gryfhau trosolwg a sicrwydd ar gyfer trefniadau diogelu ar draws yr holl gyfarwyddiaethau, ac yn enwedig ar gyfer gwasanaethau a ddarperir gan drydydd partïon a rhanddeiliaid.

7 Caiff ymrwymiad Gweithrediaeth y Cyngor i ddiogelu ei ddatgan yn ei Gynllun Corfforaethol lle mae'n nodi ei fod yn amcanu at 'roi trefniadau diogelu effeithiol ar waith i amddiffyn pobl rhag niwed'. Fodd bynnag, nid yw wedi mynd i'r afael eto â'r rhan fwyaf o'n cynigion blaenorol ar gyfer gwella a'n hargymhellion cenedlaethol a nodir yn Arddangosyn 1. Mae Arddangosyn 2 yn nodi ein hasesiad o gynnydd y Cyngor o ran rhoi pob argymhelliad cenedlaethol a chynnig lleol ar gyfer gwella ar waith.

Arddangosyn 1: argymhellion cenedlaethol a chynigion cenedlaethol ar gyfer gwella nad ydynt wedi cael eu rhoi ar waith yn llawn eto

| **Argymhellion cenedlaethol a chynigion cenedlaethol ar gyfer gwella nad ydynt wedi cael eu rhoi ar waith yn llawn eto** | |
|---|---|
| **CAG2** | Cryfhau perfformiad a threfniadau rheoli risg trwy fynd ati'n rheolaidd i adrodd ar gasgliadau o weithgarwch diogelu'r holl adrannau wrth fforymau perthnasol i gryfhau trosolwg a chraffu. |
| **CAG3** | Cynnwys diogelu o fewn y rhaglen archwilio mewnol i gryfhau atebolrwydd a her. |
| **A1** | Gwella arweiniad corfforaethol a chydymffurfio â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddiogelu trwy wneud yr isod:<br>• penodi uwch-swyddog arweiniol fydd yn atebol am ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc gyda chyfrifoldebau corfforaethol am gynllunio gwelliannau;<br>• penodi aelod arweiniol dros ddiogelu; a<br>• dosbarthu a chyfoesi yn rheolaidd wybodaeth am y penodiadau hyn i'r holl staff a rhanddeiliaid. |
| **A3** | Cryfhau recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel trwy:<br>• sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu ac Atal (GDA) a chydymffurfio a pholisïau recriwtio diogel yn cynnwys pob gwasanaeth sy'n dod i gysylltiad â phlant;<br>• creu system gydymffurfio gorfforaethol integredig i gofnodi a monitro lefelau cydymffurfio ar wiriadau GDA; a<br>• mynnu cael arferion recriwtio diogel ymysg partneriaid yn y trydydd sector ac i wirfoddolwyr sydd yn darparu gwasanaethau a gomisiynir a/neu a ddefnyddir gan y cyngor gyda sylfaen o gontract neu gytundeb lefel gwasanaeth. |

| Argymhellion cenedlaethol a chynigion cenedlaethol ar gyfer gwella nad ydynt wedi cael eu rhoi ar waith yn llawn eto | |
|---|---|
| **A4** | Sicrhau bod y staff, aelodau a phartneriaid perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau diogelu trwy:<br>• sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn orfodol a bod yr ymdriniaeth yn ymestyn at holl feysydd gwasanaeth perthnasol y cyngor, a'i fod yn cael ei gynnwys fel elfen safonol ar raglenni cynefino;<br>• creu system ledled y gorfforaeth i adnabod, olrhain a monitro cydymffurfiaeth â'r angen i fod yn bresennol mewn hyfforddiant diogelu yn holl adrannau'r cyngor, aelodau etholedig, ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr; a<br>• mynnu bod staff perthnasol mewn sefydliadau sy'n bartneriaid a gomisiynir i weithio dros y cyngor wrth gyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn gorfod ymgymryd â hyfforddiant diogelu. |
| **A6** | Gwella atebolrwydd am ddiogelu corfforaethol trwy adrodd yn rheolaidd ar faterion diogelu a sicrwydd wrth bwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth perfformiad ledled y cyngor ynglŷn â'r canlynol:<br>• meincnodi a chymharu ag eraill;<br>• casgliadau archwiliadau/adolygiadau arolygu mewnol ac allanol;<br>• data perfformiad seiliedig ar wasanaethau;<br>• data personél allweddol megis hyfforddiant diogelu, a gwiriadau recriwtio GDA; a<br>• pherfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu'r cyngor. |
| **A7** | Sefydlu rhaglen dreigl o adolygiadau archwilio mewnol i gynnal profion ar systemau a chynnal adolygiadau cydymffurfio ar arferion diogelu'r cyngor. |
| **A8** | Sicrhau yr ystyrir y risgiau sy'n gysylltiedig â diogelu ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth wrth ddatblygu a chytuno ar gynlluniau rheoli risg ar draws y cyngor. |

# Asesiad o'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion o'n hadroddiad yn 2015 a'r cynigion ar gyfer gwella o'n hadroddiad yn 2014

## Arddangosyn 2: asesiad o gynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r argymhellion cenedlaethol

Mae'r tabl isod yn nodi ein hasesiad o gynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r argymhellion cenedlaethol o'r adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2015 a'r cynigion ar gyfer gwella o'r adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2014.

| Argymhellion o'r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2015 a chynigion lleol ar gyfer gwella o'r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2014 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| **A1** Gwella arweiniad corfforaethol a chydymffurfio â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddiogelu trwy wneud yr isod:<br>• penodi uwch-swyddog arweiniol fydd yn atebol am ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc gyda chyfrifoldebau corfforaethol am gynllunio gwelliannau;<br>• penodi aelod arweiniol dros ddiogelu; a<br>• dosbarthu a chyfoesi yn rheolaidd wybodaeth am y penodiadau hyn i'r holl staff a rhanddeiliaid. | **Crynodeb – Wedi'i Roi Ar Waith Yn Rhannol**<br><br>Mae'r Cyngor wedi penodi uwch swyddog arweiniol.<br>Y Rheolwr Gyfarwyddwr sy'n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau bod trefniadau diogelu plant yn effeithiol. Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yw'r arweinydd diogelu dynodedig ac mae'n goruchwylio ac yn adrodd wrth aelodau a'r Rheolwr Gyfarwyddwr ar weithrediad, monitro a gwella systemau diogelu.<br><br>Mae'r Cyngor wedi penodi aelod arweiniol ar gyfer diogelu.<br><br>Mae'n amlwg bod y Cyngor yn lledaenu gwybodaeth am y penodiadau hyn ac yn trefnu bod gwybodaeth am y penodiadau hyn yn hygyrch i staff ond nid yw'n glir i ba raddau y mae'n lledaenu'r wybodaeth hon i'w randdeiliaid i'w hysbysu'n gyson. |

| | |
|---|---|
| | Mae cyfrifoldebau diogelu a chyswllt â'r Polisi Diogelu Corfforaethol wedi cael eu cynnwys yn neges y Rheolwr Gyfarwyddwr a anfonir at yr holl staff.<br>Mae'r Polisi Diogelu Corfforaethol ar gael ar wefan y Cyngor, ond nid yw'n hawdd dod o hyd iddo. Mae'r Polisi ar gael trwy glicio ar yr adran 'Preswylydd' ac yna 'Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles' ac yn olaf yr adran 'Diogelu'. Ym mis Gorffennaf 2019, fe lansiodd y Byrddau Diogelu Plant ac Oedolion eu gwefan newydd www.gwentsafeguarding.org.uk. Ceir dolen uniongyrchol i'r wefan hon o'r adran 'diogelu' ar wefan y Cyngor.<br><br>Ceir adrannau 'diogelu' ar fewnrwyd y Cyngor, ac felly hefyd adnoddau dysgu ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Oedolion, ond nid adnodd dysgu corfforaethol.<br><br>Ym mis Mehefin 2019, fe gwblhaodd y Cyngor broses i ailstrwythuro'r uwch dîm rheoli. Bydd y broses ailstrwythuro hon yn arwain at newid mewn arweinwyr diogelu a dirprwy arweinwyr diogelu strategol dynodedig. Mae'r Cyngor yn bwriadu diwygio'r Proses Diogelu Corfforaethol yn fuan i adlewyrchu'r newidiadau hyn.<br><br>Fodd bynnag, ar adeg ein gwaith maes, canfuom fel a ganlyn:<br>• er bod contractau'n nodi cyfrifoldebau diogelu, nid yw contractwyr yn cael y polisi diogelu corfforaethol. Felly mae contractwyr yn annhebygol o wybod pwy yw'r swyddogion diogelu arweiniol neu beth yw'r gweithdrefnau Corfforaethol ar gyfer hysbysu ynghylch unrhyw bryderon sy'n ymwneud â diogelu.<br>• mae gan bob cyfarwyddiaeth arweinydd diogelu a dirprwy arweinydd diogelu. Mae materion diogelu'n cael eu trafod yn y rhwydwaith dirprwy arweinwyr diogelu strategol a gwybodaeth yn cael ei lledaenu trwy'r rhain. Nid oes amodau gorchwyl sy'n egluro beth yw diben ac amcanion y rhwydwaith hwn. Hefyd, ni chynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd gan y rhwydwaith arweinwyr diogelu am gyfnod estynedig o ganlyniad i absenoldeb hirdymor Cadeirydd y rhwydwaith oherwydd salwch. Er bod cyfarfodydd rheolaidd gan y rhwydwaith wedi cael eu hadfer yn ddiweddar yn dilyn penodi Cadeirydd newydd, mae angen cryfhau trefniadau llywodraethu'r rhwydwaith hwn i sicrhau nad yw'n ddibynnol ar un unigolyn a hefyd i sicrhau bod gan y rhwydwaith ddiben eglur.<br>Mae gan y Cyngor waith pellach i'w wneud i fynd i'r afael yn llawn â'r argymhelliad cenedlaethol hwn.<br><br>Wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn, dylai'r Cyngor amcanu at:<br>• sicrhau ei fod yn cyfleu enwau a rolau swyddogion ac aelodau arweiniol ar gyfer diogelu i'r holl staff, gwirfoddolwyr, gweithwyr asiantaeth a chontractwyr pan gaiff y polisi Diogelu Corfforaethol ei ddiwygio i adlewyrchu'r drefn newydd ers ailstrwythuro'r uwch dîm rheoli; |

| | |
|---|---|
| | • sicrhau bod yr arweinwyr diogelu strategol dynodedig newydd a'r dirprwy arweinwyr yn cael eu briffio'n llawn ar eu rolau a'u cyfrifoldebau diogelu;<br>• cryfhau'r trefniadau llywodraethu sy'n ategu'r rhwydwaith dirprwy arweinwyr diogelu strategol dynodedig;<br>• sicrhau bod y Polisi Diogelu Corfforaethol yn hygyrch o brif wefan y Cyngor;<br>• sicrhau bod contractwyr yn cael y polisi diogelu corfforaethol cyn dechrau gwaith yn y Cyngor i ddeall yn llawn beth yw'r rolau a chyfrifoldebau a gweithdrefnau diogelu corfforaethol; a hefyd<br>• profi ymwybyddiaeth cyflogeion o'r polisi a'r gweithdrefnau diogelu, a'u hyder i ddefnyddio'r polisi (er enghraifft, trwy arolwg staff). |

| Argymhellion o’r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2015 a chynigion lleol ar gyfer gwella o’r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2014 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
| --- | --- |
| **Cynnig Lleol ar gyfer Gwella 1**<br><br>Cadarnhau Swyddog Dynodedig y Cyngor ar gyfer Diogelu | **Gweler y naratif uchod** |
| **A2** Sicrhau bod polisi corfforaethol ar ddiogelu sy’n cynnwys holl wasanaethau’r cyngor er mwyn rhoi cyfeiriad strategol clir a llinellau atebolrwydd clir ar draws y cyngor. | **Crynodeb – Wedi’i roi ar waith yn llawn**<br><br>Mae gan y Cyngor Bolisi Diogelu ar gyfer plant ac oedolion agored i niwed sy’n cwmpasu holl feysydd gwasanaeth y Cyngor ac yn berthnasol i’r holl aelodau etholedig, cyflogeion, gwirfoddolwyr a chontractwyr.<br><br>Dull y Cyngor yw bod ‘diogelu plant (ac oedolion) rhag cael eu cam-drin yn fusnes i bawb a bod cyfrifoldeb ar y cyd, yn gorfforaethol ac yn unigol, am sicrhau bod yr holl blant (ac oedolion) yn cael eu trin â pharch a’u hamddiffyn rhag eraill a allai eu cam-drin’.<br><br>Mae pob Cyfarwyddiaeth yn gyfrifol am enwebu Arweinydd Diogelu Strategol Dynodedig a Dirprwy Arweinydd Diogelu. Mae’r Polisi Diogelu Corfforaethol yn nodi rolau a chyfrifoldebau arweinwyr diogelu strategol a dirprwy arweinwyr diogelu.<br><br>Fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo’r Polisi Diogelu cyfredol ym mis Ionawr 2018, ac mae’r polisi’n cael ei adolygu bob tair blynedd. Gan bod yr uwch dîm rheoli wedi’i ailstrwythuro’n ddiweddar, cawsom ein hysbysu y bydd y polisi’n cael ei adolygu cyn bo hir i adlewyrchu newidiadau i arweinwyr diogelu strategol a dirprwy arweinwyr diogelu.<br><br>Mae’r Polisi Diogelu Corfforaethol yn darparu cyfeiriad da at arwyddion a symptomau posibl esgeuluso, cam-drin corfforol, cam-drin rhywiol, cam-drin emosiynol a seicolegol, cam-drin domestig lle mae plant ac oedolion yn y cwestiwn, camfanteisio’n rhywiol ar blant a cham-drin oedolion yn ariannol. |

| Argymhellion o’r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2015 a chynigion lleol ar gyfer gwella o’r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2014 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| **A2** Sicrhau bod polisi corfforaethol ar ddiogelu sy’n cynnwys holl wasanaethau’r cyngor er mwyn rhoi cyfeiriad strategol clir a llinellau atebolrwydd clir ar draws y cyngor. | Mae gan Dîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor eitem sefydlog ar yr agenda sy’n ymwneud â diogelu yng Nghyfarfodydd y Tîm Rheoli, ac mae hyn yn helpu i ddarparu arweinyddiaeth ar ddiogelu ar y lefel uchaf ymhlith swyddogion.<br>Dylai’r Cyngor ystyried yr opsiynau canlynol i gryfhau ei drefniadau ymhellach:<br>• bod y Polisi Diogelu yn nodi’r trefniadau llywodraethu ar gyfer Diogelu a rolau a chyfrifoldebau unigol uwch swyddogion allweddol yn ogystal â Bwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru a Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent. Byddai cyflwyno’r wybodaeth hon mewn diagram yn gwella eglurder o ran aliniad yr unigolion a’r grwpiau; a<br>• nodi rôl y Cydbwyllgor Craffu ar Ddiogelu a rôl pwyllgorau craffu unigol yn y Polisi Diogelu. |

| Argymhellion o’r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2015 a chynigion lleol ar gyfer gwella o’r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2014 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| **A3** Cryfhau recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel trwy:<br>1. sicrhau bod gwiriadau’r Gwasanaeth Datgelu ac Atal (GDA) a chydymffurfio a pholisïau recriwtio diogel yn cynnwys pob gwasanaeth sy’n dod i gysylltiad â phlant;<br>2. creu system gydymffurfio gorfforaethol integredig i gofnodi a monitro lefelau cydymffurfio ar wiriadau GDA; a<br>3. mynnu cael arferion recriwtio diogel ymysg partneriaid yn y trydydd sector ac i wirfoddolwyr sydd yn darparu gwasanaethau a gomisiynir a/neu a ddefnyddir gan y cyngor gyda sylfaen o gontract neu gytundeb lefel gwasanaeth. | **Crynodeb – Wedi’i Roi ar Waith yn Llawn**<br><br>Mae’r Cyngor wedi gweithredu i gryfhau ei drefniadau i recriwtio staff yn ddiogel. Mae gan y Cyngor bolisïau a gweithdrefnau sy’n berthnasol i bob maes gwasanaeth ac sy’n tanategu ei drefniadau ar gyfer recriwtio staff yn fwy diogel. Mae’r polisïau a’r gweithdrefnau hyn yn cynnwys asesiad o gymhwystra mewn perthynas â’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) i benderfynu a yw’n ofynnol cynnal gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn recriwtio, siarter recriwtio a chod ymarfer a pholisi recriwtio mwy diogel ar gyfer ysgolion. Mae’r Cyngor wedi asesu swyddi ei holl gyflogeion i adnabod swyddi y mae gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ofynnol ar eu cyfer a lefel y gwiriadau hynny. Er nad oes gofyniad cyfreithiol i adnewyddu gwiriadau’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, mae’r Cyngor yn mynd ati’n rhagweithiol i sicrhau bod gwiriadau’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer cyflogeion yn cael eu hadnewyddu bob tair blynedd.<br><br>Mae system gyflogres y Cyngor yn cofnodi dyddiad cymeradwyo gwiriadau’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer cyflogeion. Dri mis cyn y dyddiad adnewyddu bob tair blynedd, mae’r system yn rhybuddio’r cyflogai a’r adran Adnoddau Dynol. Mae’r adran Adnoddau Dynol yn monitro adnewyddiadau’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn fisol. Ar adeg ein gwaith maes, cawsom ein hysbysu gan y Cyngor bod gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ofynnol ar gyfer 2,335 o swyddi. Fe wnaeth 2,333 o gyflogeion adnewyddu eu gwiriad gyda’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd o fewn y cyfnod adnewyddu o dair blynedd. Ni wnaeth y ddau gyflogai sy’n weddill adnewyddu eu gwiriad gyda’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd o fewn y tair blynedd am eu bod ar absenoldeb hirdymor oherwydd salwch. Mae’r Cyngor yn parhau i wirio staff wyneb yn wyneb ar gyfer adnewyddiadau’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Ni chafodd system y gyflogres ei phrofi i wirio’r manylion hyn fel rhan o’n hadolygiad ni.<br><br>Cawsom ein hysbysu gan y Cyngor bod yr holl lywodraethwyr ysgol yn cael gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er nad ydym wedi cael tystiolaeth o hyn.<br><br>Mae gan y Cyngor Siarter a Chod Ymarfer Recriwtio a Pholisi Recriwtio a Dethol – Recriwtio Mwy Diogel mewn Ysgolion sy’n rhoi fframwaith corfforaethol a chrynodeb o ddisgwyliadau’r Cyngor i reolwyr, penaethiaid a swyddogion eraill sy’n rhan o recriwtio staff ar gyfer ysgolion. Fodd bynnag, nid ydym yn glir a yw’r Cyngor yn gwirio cydymffurfiaeth na sut y mae’n gwneud hyn. |

| | |
|---|---|
| | Cawsom ein hysbysu bod contractau gyda thrydydd partïon yn gosod cyfrifoldeb ar y contractwr am gydymffurfio â Pholisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys partneriaid yn y trydydd sector a gwasanaethau a gomisiynir. Nid yw'r Cyngor yn gwirio cydymffurfiaeth â'r trefniadau hyn fel rhan o'i drefniadau diogelu corfforaethol.<br>Ceir polisi gwirfoddolwyr sy'n nodi y dylai gwirfoddolwyr gael eu trin yr un fath â staff a chael gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bob tair blynedd. Gorwedd y cyfrifoldeb am gydymffurfio gyda rheolwr y gwasanaeth y mae'r gwirfoddolwr yn gweithio ynddo. Fodd bynnag, ar adeg ein gwaith maes canfuom y canlynol:<br>• nid oedd unrhyw drosolwg gorfforaethol i wirio a chofnodi bod llywodraethwyr ysgolion, contractwyr, staff asiantaeth a gwirfoddolwyr yn cael gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd adeg eu penodi neu ar adeg adnewyddu bob tair blynedd;<br>• nid oes system integredig i gofnodi holl wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gwirio cydymffurfiaeth; ac<br>• nid ydym yn glir a yw'r Cyngor yn gwirio cydymffurfiaeth ag arferion recriwtio diogel na sut y mae'n gwneud hynny.<br><br>Gan hynny, mae gan y Cyngor waith pellach i'w wneud i fynd i'r afael yn llawn â'r argymhelliad cenedlaethol hwn.<br><br>Wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn, dylai'r Cyngor amcanu at:<br>• sicrhau bod ei systemau monitro'n ei gwneud yn bosibl tracio prosesau recriwtio diogel a'r broses o adnewyddu gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer staff asiantaeth, gwirfoddolwyr a chontractwyr; a<br>• chryfhau trefniadau ar gyfer monitro bod gwasanaethau a gomisiynir gan y Cyngor yn dilyn arferion recriwtio diogel. |

| Argymhellion o’r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2015 a chynigion lleol ar gyfer gwella o’r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2014 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| **A4** Sicrhau bod y staff, aelodau a phartneriaid perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau diogelu trwy:<br>1. sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn orfodol a bod yr ymdriniaeth yn ymestyn at holl feysydd gwasanaeth perthnasol y cyngor, a’i fod yn cael ei gynnwys fel elfen safonol ar raglenni cynefino;<br>2. creu system ledled y gorfforaeth i adnabod, olrhain a monitro cydymffurfiaeth â’r angen i fod yn bresennol mewn hyfforddiant diogelu yn holl adrannau’r cyngor, aelodau etholedig, ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr; a | **Crynodeb – Heb ei roi ar waith**<br><br>Mae’r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i’r holl staff gwblhau hyfforddiant gorfodol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol trwy blatfform dysgu Academi Cymru Gyfan. Ar adeg ein hadolygiad ni, roedd 68% o’r gweithlu wedi cwblhau’r hyfforddiant hwn. Mae aelodau wedi cael cynnig dwy sesiwn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ddiweddar ac roedd trydedd sesiwn yn yr arfaeth i gael ei chynnal yn fuan ar ôl ein gwaith maes.<br><br>Mae gan staff y Cyngor fynediad at blatfform dysgu ar-lein Academi Cymru Gyfan sy’n cynnwys adnoddau, cyrsiau a gwybodaeth ar-lein mewn perthynas â diogelu. Mae mynediad yn rhad ac am ddim i’r holl staff o unrhyw ddyfais sydd â chyswllt â’r rhyngrwyd yn y gwaith neu gartref. I staff heb gyfeiriad e-bost yn y Cyngor, mae’r llythyr penodi’n cynnwys dolen i’r platfform dysgu ar-lein ac enw defnyddiwr a chyfrinair. Nid yw’r platfform ar-lein hwn ar gael i wirfoddolwyr na llywodraethwyr.<br><br>Mae Bwrdd Diogelu Gwent yn cynnig hyfforddiant i holl gynghorau De Ddwyrain Cymru a sefydliadau gofal cymdeithasol o’r sectorau statudol a gwirfoddol sy’n darparu gwasanaethau ar gyfer plant a’u teuluoedd.<br><br>Mae Polisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor yn gosod cyfrifoldeb ar yr Arweinwyr Diogelu Strategol Dynodedig i sicrhau bod staff o fewn eu cyfarwyddiaethau’n cael eu briffio ar y polisi ac i sicrhau bod yr holl gyflogeion newydd, fel rhan o’u rhaglen sefydlu, yn cael eu gwneud yn ymwybodol o’r polisi. Mae’r Polisi Diogelu Corfforaethol yn cyfeirio at y canlynol:<br>• yr holl gyflogeion sy’n cyfranogi mewn hyfforddiant diogelu perthnasol a threfniadau gweithio amlasiantaeth i ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed;<br>• bydd yr holl gyflogeion yn cael eu gwneud yn ymwybodol o’u cyfrifoldebau diogelu fel rhan o’u rhaglen sefydlu ar ddechrau eu cyflogaeth<br>• mae gan gyflogeion gyfrifoldeb am sicrhau eu bod yn cael mynediad at yr hyfforddiant diogelu priodol sy’n berthnasol i’w rôl a’u cyfrifoldeb hwy. |

| | |
|---|---|
| 3. mynnu bod staff perthnasol mewn sefydliadau sy'n bartneriaid a gomisiynir i weithio dros y cyngor wrth gyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn gorfod ymgymryd â hyfforddiant diogelu | Cynigiodd y Cyngor sesiwn briffio ar rianta a diogelu corfforaethol ar gyfer aelodau fel rhan o raglen sefydlu aelodau newydd yn 2017. Roedd pymtheg o aelodau'n bresennol yn y sesiwn hon.<br>Bob tymor, mae'r Rheolwr Diogelu mewn Addysg yn gofyn am gofnodion hyfforddiant gan ysgolion gan gynnwys y cofnodion hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr a Llywodraethwyr. Mae'r Rheolwr Diogelu mewn Addysg yn cofnodi gwybodaeth am hyfforddiant ar fatrics diogelu. Mae'r tîm Cymorth i Lywodraethwyr yn y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) yn cydgysylltu hyfforddiant i Lywodraethwyr, gyda phresenoldeb yn yr hyfforddiant yn cael ei gofnodi gan y Rheolwr Diogelu mewn Addysg ac yn cael ei anfon ymlaen i'r GCA. Mae cofnodion hyfforddiant gwirfoddolwyr yn cael eu cofnodi ochr yn ochr â hyfforddiant staff ysgolion ac yn cael eu coladu gyda'r cofrestrau hyfforddiant ysgol gyfan a'u cofnodi ar y matrics.<br><br>Mae'r Rheolwr Diogelu mewn Addysg yn monitro hyfforddiant ac yn llunio adroddiadau tymhorol ac yn cynnal ymweliadau sicrhau ansawdd ag ysgolion/lleoliadau addysg.<br><br>Mae staff gofal cymdeithasol newydd yn cael rhaglen sefydlu sy'n cynnwys diogelu. Cynigir tair lefel o hyfforddiant diogelu gan Fwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru ac mae presenoldeb yn cael ei gofnodi a dadansoddiadau o anghenion hyfforddi'n cael eu cwblhau a'u monitro gan swyddogion goruchwylio.<br><br>Fel a grybwyllwyd uchod, mae'r Cyngor yn gosod cyfrifoldeb am sicrhau bod staff perthnasol mewn sefydliadau partner a gomisiynir i weithio i'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc yn cydymffurfio â'i Bolisi Diogelu gyda'r sefydliad lletyol. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant. Mae gwirfoddolwyr mewn ysgolion yn aml yn cael hyfforddiant ochr yn ochr â staff ysgolion.<br><br>Fodd bynnag, ar adeg ein gwaith maes canfuom fel a ganlyn:<br>• er bod elfennau o'r hyfforddiant sy'n ymwneud â diogelu yn cael eu cyflawni, nid yw hyfforddiant diogelu ar gyfer yr holl staff perthnasol a'r holl aelodau'n orfodol;<br>• nid oes dealltwriaeth na throsolwg gorfforaethol o ran pwy y mae'n ofynnol iddynt gwblhau hyfforddiant diogelu gorfodol;<br>• er bod staff yn y gwasanaethau cymdeithasol yn cael rhaglen sefydlu sy'n cynnwys rolau a chyfrifoldebau diogelu, nid yw'r Rhaglen Sefydlu Gorfforaethol ar gyfer cyflogeion newydd yng ngwasanaethau eraill y Cyngor yn cynnwys y Polisi Diogelu Corfforaethol, rolau a chyfrifoldebau diogelu na hyfforddiant diogelu;<br>• nid oes gan y Cyngor system gorfforaethol i adnabod, tracio a monitro cydymffurfiaeth o ran mynychu hyfforddiant diogelu ar gyfer holl adrannau'r Cyngor, yr holl aelodau etholedig a'r holl wirfoddolwyr; ac |

| | |
|---|---|
| | • mae'r Cyngor yn dibynnu ar reolwyr gwasanaethau i sicrhau bod contractwyr yn cydymffurfio ag unrhyw hyfforddiant diogelu ac nid yw hyn yn cael ei fonitro'n gorfforaethol.<br><br>Gan hynny, mae gan y Cyngor waith pellach i'w wneud i roi'r argymhelliad cenedlaethol hwn ar waith.<br><br>Wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn, dylai'r Cyngor amcanu at wneud y canlynol hefyd:<br>• cynnwys y Polisi Diogelu Corfforaethol, rolau a chyfrifoldebau diogelu a hyfforddiant diogelu yn y rhaglen sefydlu gorfforaethol;<br>• sicrhau yr eir ati mewn modd cyson i gofnodi'r holl hyfforddiant diogelu ar gyfer staff er mwyn ei gwneud yn bosibl cwblhau hyfforddiant diweddaru'n brydlon; a hefyd<br>• cytuno ar yr amserlen fyrraf pan fo'n rhaid i staff, gwirfoddolwyr a chontractwyr gwblhau hyfforddiant cychwynnol sylfaenol ar ôl cael eu penodi. |
| **A5** | Argymhelliad cenedlaethol i Lywodraeth Cymru yn unig. |

| Argymhellion o’r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2015 a chynigion lleol ar gyfer gwella o’r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2014 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| **A6** Gwella atebolrwydd am ddiogelu corfforaethol trwy adrodd yn rheolaidd ar faterion diogelu a sicrwydd wrth bwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth perfformiad ledled y cyngor ynglŷn â’r canlynol:<br>• meincnodi a chymharu ag eraill;<br>• casgliadau archwiliadau/adolygiadau arolygu mewnol ac allanol;<br>• data perfformiad seiliedig ar wasanaethau;<br>• data personél allweddol megis hyfforddiant diogelu, a gwiriadau recriwtio GDA; a<br>• pherfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu’r cyngor. | **Crynodeb – Wedi’i Roi ar Waith yn Rhannol**<br><br>Yn 2017, fe sefydlodd y Cyngor Gydbwyllgor Craffu Addysg a Dysgu a Gwasanaethau Cymdeithasol (diogelu). Mae’r Pwyllgor yn cwrdd deirgwaith y flwyddyn ac yn cael gwybodaeth am berfformiad o ran diogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed i graffu arni a’i herio. Mae cyfansoddiad y Cyngor yn adlewyrchu’r cydbwyllgor craffu hwn, ond nid yw wedi’i gynnwys yn y Polisi Diogelu Corfforaethol fel rhan o’r trefniadau llywodraethu.<br><br>Mae adroddiadau am berfformiad i’r Cydbwyllgor Craffu Addysg a Dysgu a Gwasanaethau Cymdeithasol (diogelu) yn cynnwys ystod o ddangosyddion perfformiad diogelu a chynnydd yn erbyn y dangosyddion.<br>Mae adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol 2018-19 yn cynnwys casgliadau o adolygiadau Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) lle y bo’n berthnasol.<br><br>Fodd bynnag, ar adeg ein gwaith maes canfuom fel a ganlyn:<br>• nid oes adroddiad Diogelu Corfforaethol blynyddol sy’n adlewyrchu gweithgarwch diogelu ar draws holl gyfarwyddiaethau’r Cyngor;<br>• nid yw adroddiadau ar berfformiad i’r Cydbwyllgor Craffu Addysg a Dysgu a Gwasanaethau Cymdeithasol (diogelu) yn cynnwys:<br>– perfformiad contractwyr na gwasanaethau a gomisiynwyd o ran cydymffurfio â’u dyletswyddau a chyfrifoldebau diogelu;<br>– gwybodaeth am gydymffurfiaeth o ran gwiriadau’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, hyfforddiant diogelu na gwiriadau recriwtio lle mae llywodraethwyr, staff, gweithwyr asiantaeth, contractwyr a gwirfoddolwyr yn y cwestiwn;<br>– data cymharol gan gynghorau eraill; na<br>– gwybodaeth am sicrwydd a goruchwyliaeth ar draws yr holl wasanaethau lle mae diogelu corfforaethol yn y cwestiwn; mae’n canolbwyntio yn hytrach ar Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol yn unig.<br><br>Gan hynny, mae gan y Cyngor waith pellach i’w wneud i fynd i’r afael yn llawn â’r argymhelliad cenedlaethol hwn. |

| | |
|---|---|
| | Wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn, dylai'r Cyngor hefyd amcanu at wneud y canlynol:<br>• sicrhau bod adroddiadau diogelu'n cynnwys gwybodaeth am berfformiad, cydymffurfiaeth o ran gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a lefelau presenoldeb mewn hyfforddiant diogelu; a<br>• sicrhau yr adroddiad ar faterion a risgiau diogelu ar draws holl gyfarwyddiaethau'r Cyngor a'i holl bartneriaid, gwirfoddolwyr a thrydydd partïon sy'n darparu gwasanaethau ar ran y Cyngor. |
| **Cynnig Lleol ar gyfer Gwella 2**<br>Cryfhau trefniadau rheoli perfformiad a risg trwy gyflwyno adroddiadau rheolaidd ar gasgliadau o weithgarwch diogelu pob adran i fforymau perthnasol i gryfhau trosolwg a chraffu. | Gweler y naratif uchod |
| **A7** Sefydlu rhaglen dreigl o adolygiadau archwilio mewnol i gynnal profion ar systemau a chynnal adolygiadau cydymffurfio ar arferion diogelu'r cyngor. | **Crynodeb – Wedi'i Roi ar Waith yn Rhannol**<br><br>Yn dilyn ein hadolygiad cenedlaethol o ddiogelu corfforaethol yn 2014, fe gynhaliodd y gwasanaeth archwilio mewnol adolygiad o ddiogelu mewn ysgolion. Fe roddodd yr adolygiad hwn ystyriaeth i nifer o feysydd megis rolau a chyfrifoldebau diogelu eglur, gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a hyfforddiant diogelu. Rhoddodd y gwasanaeth archwilio mewnol 'sicrwydd rhesymol' a oedd yn golygu bod 'rheolaethau i'w gweld fel pe baent yn gweithredu'n effeithiol; fodd bynnag, canfuwyd rhai gwendidau'.<br><br>Mae pob ysgol yn cwblhau hunanasesiad rheoli risg blynyddol. Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn dadansoddi'r ffurflenni ac yn penderfynu a yw'n ofynnol cynnal archwiliad. Yn 2017-18, cynhaliodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol adolygiad o'r broses Recriwtio Mwy Diogel gan Ysgolion i ganfod effeithiolrwydd y rheolaethau mewnol a oedd yn gweithredu fel a adnabuwyd fel rhan o'r broses Hunanasesiad Rheoli Risg. Roedd yr archwiliad hwn yn cynnwys gwirfoddolwyr a staff ysgolion. Rhoddodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol Sicrwydd Cyfyngedig a hysbyswyd yr holl ysgolion ynghylch canlyniad yr archwiliad hwn. Mae adolygiad dilynol yn rhan o gynllun archwilio'r gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2018-2023.<br><br>Mae gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol gynllun pum mlynedd (2019-2024) a ddiwedderir yn flynyddol. Yn flynyddol, mae'r gwahanol wasanaethau a threfniadau yn y cynllun archwilio yn cael asesiad risg i bennu sgôr risg. Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ysgrifennu cynllun archwilio blynyddol yn dilyn asesu'r risgiau. |

| | |
|---|---|
| | Mae Cynllun Archwilio 2019-2024 yn cynnwys recriwtio staff yn fwy diogel mewn ysgolion, diogelu yn y gwasanaethau cymdeithasol, Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA), rhianta corfforaethol a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Fodd bynnag, er bod gwasanaeth neu arfer gweithio sy'n ymwneud â diogelu wedi'i gynnwys yng nghynllun pum mlynedd y gwasanaeth Archwilio Mewnol, efallai na fydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ei adolygu. Mae adolygiad Archwilio Mewnol yn ddibynnol ar ganlyniad unrhyw broses flynyddol i bennu sgôr risg. Ar 23 Gorffennaf 2019, cafodd y Pwyllgor Archwilio gynllun blynyddol y gwasanaeth Archwilio Mewnol ond nid yw'n glir a yw unrhyw drefniadau diogelu yn mynd i gael adolygiad Archwilio Mewnol yn 2019-20.<br><br>Ar adeg ein gwaith maes, canfuom fel a ganlyn:<br>• er bod y Cynllun Archwilio Mewnol pum mlynedd yn cynnwys gwasanaethau a phrosesau diogelu, ni fydd y rhain yn cael adolygiad archwilio mewnol o anghenraid. Felly, efallai na fydd diogelu a/neu weithdrefnau diogelu yn cael unrhyw adolygiad gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol.<br>• ar wahân i'w ddull o gynnal archwiliadau diogelu mewn ysgolion, nid yw'n amlwg bod y Cyngor wedi sefydlu rhaglen dreigl o adolygiadau archwilio mewnol i brofi systemau a chydymffurfiaeth â Pholisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor.<br><br>Gan hynny, mae gan y Cyngor waith pellach i'w wneud i fynd i'r afael yn llawn â'r argymhelliad cenedlaethol hwn.<br><br>Wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn, dylai'r Cyngor hefyd amcanu at wneud y canlynol:<br>• egluro rôl y gwasanaeth Archwilio Mewnol a'r Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â sicrhau gweithrediad effeithiol a threfniadau llywodraethu effeithiol ar gyfer Diogelu Corfforaethol, gan gynnwys o fewn y Polisi Diogelu Corfforaethol; a<br>• sicrhau bod gwybodaeth a mewnwelediad perthnasol o raglen waith y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cael eu rhannu a'u bod yn bwyso i mewn i fframwaith trosolwg a sicrwydd y Cyngor ar gyfer diogelu gan gynnwys gyda'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol. |
| **Cynnig ar gyfer Gwella 3**<br>Cynnwys diogelu o fewn y rhaglen archwilio mewnol i gryfhau atebolrwydd a her. | **Gweler y naratif uchod** |

| Argymhellion o’r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2015 a chynigion lleol ar gyfer gwella o’r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2014 | | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|---|
| **A8** | Sicrhau yr ystyrir y risgiau sy’n gysylltiedig â diogelu ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth wrth ddatblygu a chytuno ar gynlluniau rheoli risg ar draws y cyngor. | **Crynodeb – Wedi’i Roi ar Waith yn Rhannol**<br><br>Mae ‘Methu â sicrhau bod trefniadau diogelu digonol ar waith ar gyfer yr holl blant agored i niwed’ yn un o risgiau’r gyfarwyddiaeth Addysg. Mae ‘Methu â sicrhau bod trefniadau diogelu digonol ar waith ar gyfer yr holl bobl agored i niwed’ yn un o risgiau’r gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>Fodd bynnag, ar adeg ein gwaith maes canfuom y canlynol:<br>• nid yw diogelu’n risg gorfforaethol;<br>• nid yw diogelu’n risg ar lefel gwasanaeth ar gyfer unrhyw un o wasanaethau eraill y Cyngor; ac<br>• o ganlyniad, nid oes cynlluniau rheoli risg ar gyfer diogelu wedi’u rhoi ar waith.<br><br>Gan hynny, mae gan y Cyngor waith pellach i’w wneud i fynd i’r afael yn llawn â’r argymhelliad cenedlaethol hwn.<br><br>Wrth fynd i’r afael â’r argymhelliad hwn, dylai’r Cyngor hefyd amcanu at wneud y canlynol:<br>• ystyried risgiau diogelu mewn gwasanaethau heblaw’r Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru